Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Helpu cyflogwyr i gefnogi'r broses o gofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion

Y dyddiad cau i gofrestru yw Hydref 2022.
Rydyn ni yma i'ch helpu chi a'ch staff gyda'r cofrestru.

Mae cyflogwyr yn hanfodol i'r broses gofrestru, ac mae ganddyn nhw gyfrifoldebau pwysig iawn, gan gynnwys:

- Dod yn llofnodwyr – rhaid i chi sicrhau bod gennych ddigon o lofnodwyr i reoli'r broses gofrestru, gan gynnwys ceisiadau am gymeradwyaeth. I wirio eich rhestr, ewch i Eich Sefydliad o fewn eich cyfrif GCCarlein. Os oes angen mwy arnoch neu os oes angen newid eich rhestr o lofnodwyr, gellir gwneud hyn hefyd ar GCCarlein.
- Gwirio a chymeradwyo ceisiadau mewn ffordd amserol.
- Cefnogi eich staff i gynnal eu cofrestriad. Gallwch roi gwybod i ni os bydd eu manylion yn newid, gan gynnwys os ydyn nhw wedi gadael eich sefydliad, ar GCCarlein.
- Hyrwyddo'r Côd Ymarfer Proffesiynol a rhoi gwybod i ni am unrhyw bryderon drwy gysylltu â'n Tîm Addasrwydd i Ymarfer, a gellir gwneud hynny ar ein gwefan.

Os hoffech gael cymorth gydag unrhyw un o'r uchod, gan gynnwys sut gallwn gefnogi eich staff i gofrestru, cysylltwch â cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru

Tudalen cyfrifoldebau cyflogwyr
gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cyfrifoldebau-cyflogwyr-a-sefydliadau-addysg-uwch

Gwyliwch y fideo hwn am fwy o wybodaeth

ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru
0300 303 3444